**Tasg 1**

# Rhaglenni cwis

1. Edrychwch eto ar y gwahanol fathau o gwisiau ar y brif sgrin.
   Ceisiwch enwi cwisiau sy'n perthyn i'r categorïau hyn.

2. Gwyliwch gwis ar S4C.
   Disgrifiwch fformat y cwis, e.e.
   - Sawl person sy'n cyflwyno?
   - Beth yn union maen nhw'n ei wneud ar y rhaglen?
   - Beth sy'n digwydd ar y dechrau?
   - Sut rydyn ni'n dod i adnabod y cystadleuwyr?
   - Beth yw fformat y cwis?
   - Sut mae penderfynu pa dîm sy'n ennill?
   - Beth yw'r wobr?

3. Beth yw'ch barn chi am y cwis yma?
   Cofiwch roi digon o resymau i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

4. Beth, yn eich barn chi, sy'n gwneud rhaglen gwis dda?
   Trafodwch hyn mewn grŵp a chofnodwch eich syniadau.
   Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.